**WHC/2022/005**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi:** 24 Mawrth 2022

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: LLYWODRAETHU GWYBODAETH**

**Teitl: Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru – gofynion data**

**Dyddiad Dod i Ben / Adolygu:** 31 Mawrth 2025

**I'w weithredu gan:**

Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru (Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau) ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

**Angen gweithredu erbyn:** Ar unwaith

**Anfonir gan:** Ifan Evans, Cyfarwyddwr Technoleg, Digidol a Thrawsnewid

**Enw(au) Cyswllt yng Ngrŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:**

Catherine Malcolmson, Arweinydd y Rhaglen Gwerth mewn Iechyd, Y Gyfarwyddiaeth Technoleg, Digidol a Thrawsnewid, Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. E-bost: Catherine.Malcolmson@gov.wales

**Yn amgaeedig:** Dim

## Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru: Gofynion Data

### Cefndir

1. Mae’r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau a nodir yn WHC 2020(003), ac yn benodol sicrhau bod y nod o gael iechyd a gofal gwerth uwch fel y’i disgrifir yn *Cymru Iachach*, cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, yn cael ei hwyluso drwy Ganolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru, yn unol â'i strategaeth hyd at 2024.

2. Mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2022 - 2025 yn pwysleisio bod rhaid i egwyddorion Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth fod yn sail ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau. Mae Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth yn gofyn am ddull seiliedig ar ddata o wneud penderfyniadau, lle mae gan staff ar bob lefel wybodaeth hygyrch am ganlyniadau cleifion, i gefnogi eu penderfyniadau ar gynllunio dyraniad adnoddau a dylunio gwasanaethau sy'n diwallu gwir angen ar draws y llwybr gofal cyfan.

3. Yng Nghymru, byddwn yn ysgogi'r gwaith o wella gwasanaethau gofal iechyd a sicrhau mwy o werth i gleifion gan ddefnyddio dull cydweithredol. Byddwn yn rhannu a defnyddio data, ac yn datblygu ein canlyniadau ac yn mesur a dadansoddi costau.

4. Bydd hyn yn cynnwys mesur costau gofal iechyd ar lefel system a gwneud y rheini'n weladwy i dimau clinigol. Bydd hyn yn caniatáu iddynt fod yn stiwardiaid adnoddau drwy ddylanwadu ar ofal gwerth uchel ar gyfer y poblogaethau y maent yn gofalu amdanynt.

5. Mae sefydliadau iechyd a gofal yng Nghymru wedi ymrwymo i ddatblygu eu dulliau Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys gwella dulliau casglu ac adrodd ar ddata canlyniadau ar gyfer ystod o gyflyrau meddygol, ac edrych ar amrywiadau direswm mewn gwasanaethau a chanlyniadau i ddatgelu'r diffyg defnydd a'r gorddefnydd o wahanol agweddau ar ofal iechyd.

### Gofynion data i gefnogi Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth

6. Mae'r data mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn yn cyfeirio ato yn cynnwys:

   - Archwiliadau clinigol ac adolygiadau o ganlyniadau fel y'u rhestrir yn y *Cynllun Archwilio Clinigol Cenedlaethol ac Adolygiadau Canlyniadau ar gyfer 2019/20,* ac yn benodol y data hynny a ddarparwyd i'r darparwr archwilio neu'r gofrestrfa fel y nodir yn WHC/2019/006, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019, hyd nes y caiff ei ddisodli gan WHC/2022/002, a gyhoeddir yng ngwanwyn 2022.

- Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMs) fel y'u cesglir drwy'r platfform PROMs cenedlaethol a phlatfformau eraill. https://proms.nhs.wales/

7. Bydd y llifoedd data i ddarparwyr archwilio a chofrestrfeydd yn parhau.
8. Mae'n ofynnol i **Iechyd a Gofal Digidol Cymru** gasglu'r data i hwyluso'r dull Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth ac yn benodol, i:
   - Bennu diben a dull prosesu'r data drwy ddatblygu Hysbysiadau Newid Safonau Data (DSCNs) a fydd yn angenrheidiol i symleiddio llif data o sefydliadau'r GIG yng Nghymru i Iechyd a Gofal Digidol Cymru.
   - Defnyddio elfennau penodol o'r Rhaglen Adnoddau Data Cenedlaethol i hwyluso'r gwaith o brosesu a rhannu gwybodaeth a ddisgrifir yn y cyfarwyddyd hwn.
   - Creu a darparu delweddau a dangosfyrddau at ddefnydd byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru i alluogi dull Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth i gael ei ddefnyddio i gynllunio a darparu gwasanaethau.
9. Mae'n ofynnol i **Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau** roi'r data archwilio/cofrestrfa clinigol i Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gefnogi gwaith Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru ac yn benodol, i:
   - Barhau i gyflwyno data i archwiliadau clinigol ac adolygiadau o ganlyniadau ledled y DU a phlatfformau PROMs cenedlaethol;
   - Darparu data archwilio a PROMs i Iechyd a Gofal Digidol Cymru at ddibenion creu delweddau a dangosfyrddau ar gyfer dulliau Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth.

**<u>Cyfrifoldebau</u>**

10. Bydd Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yn parhau i fod yn rheolwyr y data adeg eu casglu.
11. Bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn rheoli'r data ar y cyd â Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau wrth gasglu'r data, a bydd yn cysylltu â Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau wrth benderfynu ar y dibenion a'r dulliau prosesu.
12. Bydd Cytundebau Rhannu Data presennol rhwng Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yn cael eu defnyddio ar gyfer y digwyddiad rhannu gwybodaeth, a bydd hyn yn cael ei gofnodi ar y Gofrestr Llifoedd Gwybodaeth Genedlaethol a gedwir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru.
13. Bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yn cynhyrchu Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd Data (DPIAs) fel sy'n

angenrheidiol i gydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data lle mae data adnabyddadwy newydd i'w rhannu neu eu prosesu mewn ffordd arall.

**Atodiad A**

Mae’r Cylchlythyr Iechyd Cymru a’r prosesu gwybodaeth yn ei sgil yn seiliedig ar ystyriaeth o’r canlynol:

- Adran 1 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i barhau i hyrwyddo gwasanaeth iechyd cynhwysfawr sydd wedi'i gynllunio i sicrhau gwelliant yn iechyd corfforol a meddyliol pobl Cymru, a gwelliant o ran atal, gwneud diagnosis a thrin salwch. Mae adran 2 o'r Ddeddf honno'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud unrhyw beth i hwyluso cyflawni'r ddyletswydd honno, neu sy'n ffafriol neu'n gysylltiedig â’i chyflawni.

- Yn unol ag Adran 3 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd statudol i, ymhlith pethau eraill, ddarparu ledled Cymru, i'r graddau y maent yn gweld yn angenrheidiol i fodloni pob gofyniad rhesymol, wasanaethau gofal iechyd ac unrhyw wasanaethau neu gyfleusterau eraill sy'n ofynnol ganddynt ar gyfer rhoi diagnosis o salwch a’i drin.

- Yn unol ag Adran 12 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo Bwrdd Iechyd Lleol i arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth iechyd yn ei ardal. Yn unol â Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009, mae'r ddyletswydd o dan Adran 3 o Ddeddf 2006 wedi'i dirprwyo i'r Byrddau Iechyd Lleol, felly maent yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

- Yn unol ag Adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, sefydlu ymddiriedolaethau'r GIG i ddarparu nwyddau a gwasanaethau at ddibenion y gwasanaeth iechyd. Yn unol ag Adran 19 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i ymddiriedolaeth y GIG ynghylch arfer unrhyw swyddogaethau.

- Mae cyflenwi data i hwyluso gwaith Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru ac, yn benodol, parhau i gyflwyno data i archwiliadau clinigol ac adolygiadau o ganlyniadau DU gyfan a phlatfformau PROMs cenedlaethol yn dod o fewn swyddogaethau statudol y Byrddau Iechyd Lleol a'r Ymddiriedolaethau.

- Yn unol ag Adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, sefydlu cyrff arbennig, a elwir yn Awdurdodau Iechyd Arbennig, at y diben o arfer unrhyw swyddogaethau a gyflwynir iddynt.

- Yn unol ag Adran 24 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo Awdurdod Iechyd Arbennig i arfer

unrhyw un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â'r gwasanaeth iechyd a bennir yn y cyfarwyddiadau. Mae Adran 23 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i Awdurdod Iechyd Arbennig ynghylch sut mae'n arfer unrhyw swyddogaethau.

- Daeth Gorchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu ac Aelodaeth) 2020 ("y Gorchymyn") i rym ar 30 Rhagfyr 2020 a sefydlodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ("DHCW") fel Awdurdod Iechyd Arbennig a gwnaeth ddarpariaeth ynghylch ei swyddogaethau a'i aelodaeth. Mae Erthygl 3 yn nodi natur swyddogaethau Iechyd a Gofal Digidol Cymru sydd i'w pennu'n fwy penodol mewn cyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan Adran 24 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae swyddogaethau Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ymwneud â, ymhlith pethau eraill, casglu, dadansoddi, defnyddio a lledaenu data'r gwasanaeth iechyd ac unrhyw fater arall er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu neu eu hyrwyddo o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

At ddibenion y llifoedd data sydd eisoes wedi'u sefydlu o fewn y cytundebau presennol, mae'n fwyaf tebygol y dibynnir ar yr amodau canlynol o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data o dan yr amgylchiadau hyn:

Erthygl 6(1) (c) ac (e):

> (c) mae angen prosesu eich data personol ar gyfer cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolydd yn ddarostyngedig iddi;
>
> (e) mae angen prosesu eich data personol ar gyfer perfformio tasg a wneir er budd cyhoeddus neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freinir yn y rheolydd.

Erthygl 9(2) (h) a (i):

> (h) mae angen prosesu eich data personol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol, ar gyfer asesu gallu gweithio'r gweithiwr cyflogedig, diagnosis meddygol, darparu iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol yn seiliedig ar gyfraith Undeb neu Aelod-wladwriaeth neu yn unol â chontract gyda gweithiwr iechyd proffesiynol ac yn ddarostyngedig i'r amodau a'r mesurau diogelu y cyfeirir atynt ym mharagraff 3;
>
> (i) mae angen prosesu eich data personol er budd cyhoeddus ym maes iechyd y cyhoedd, megis diogelu rhag bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd neu sicrhau safonau uchel o ran ansawdd a diogelwch gofal iechyd a chynhyrchion meddyginiaethol neu ddyfeisiau meddygol, yn seiliedig ar gyfraith Undeb neu Aelod-wladwriaeth sy'n darparu ar gyfer mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau a rhyddid testun y data, yn enwedig cyfrinachedd broffesiynol.

Mae gan bob parti gyfrifoldeb dros gywirdeb, uniondeb a chyfrinachedd yr wybodaeth a rennir yn yr amgylchiadau hyn.